

Amaethyddiaeth

www.aber.ac.uk/cy/ibers

NEWYDDION

Hydref 2009

Dyma'r amser i feddwl am yrfa yn y diwydiant amaeth !

Bydd yn rhaid i'r diwydiant amaeth ym Mhrydain ddenu 60,000 o newydd-ddyfodiaid yn ystod y deng mlynedd nesaf os yw i gynnal y gweithlu presenol. Mae'n edrych yn debyg y bydd rhaid denu dros 6,000 y flwyddyn am y degawd nesaf, gyda cymaint a 1,000 o'r rhain ar gyfer swyddi rheolaeth.

Mae'n ymddangos mai dim ond rhwng 50% a 70% o'r newydd-ddyfodiaid sydd eu angen gan gyflogwyr sydd yn dod o'r colegau addysg bellach ac uwch ac yn dechrau creu prinder.

Comisinwyd adroddiad ar y ffactorau sy'n ymwneud a mynediad i'r diwydiant gan Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Lloegr. Yn ol yr awdur, Alan Spedding, "Mae'n rhaid i ffermio gyfleu'r ddelwedd o ddiwydiant cymleth, technegol, heriol a boddhaol."

Mae'r adroddiad yn cydnabod fod yr NFU

Wyneb cig oen Cymreig

Mae Hybu Cig Cymru, yr asiantaeth hybu cig coch, wedi dewis Myrddin Davies, a raddiodd mewn Amaethyddiaeth a Rheolaeth Busnes yn Aberystwyth, fel llysgennad y diwydiant - y 'Wyneb Cig Oen Cymreig' cyntaf erioed.

Dewisodd panel annibynol o feirniaid, gan gynnwys y cogydd seren-Michelin Antony Demetre, Myrddin sy'n 26 oed ar ol i ffermwyr defaid ledled y wlad gystadlu am y frain. Bydd yn gweithredu fel llysgennad dros gig oen Cymreig ar hyd a lled y DU.

wedi gwneud ymdrech drwy'r ymgyrch 'Why Young People Matter to Farming' a lansiwyd yn 2007 ond nad yw'r diwydiant yn debyg o gael effaith sylweddol os nad yw'r holl sectorau - ffermio, peirianwaith amaethyddol, gwyddorau amaethyddol a'r holl sectorau sy'n tanlinellu'r diwydiant i'fyny' ac i'lawr' o'r fferm yn dod ynghyd er mwyn hyrwyddo'r potensial gyrfaoel.

Dywed Mr Spedding ei bod yn anodd rhagweld y nifer o unigolion y bydd y diwydiant ei angen ond nad yw'r ffigurau yn gor-ddweud gan nad ydynt yn ystyried swyddi yn y sectorau peirianyddol, amddiffyn cnydau ac anifeiliaid, milfeddygol, masnacha na chynghori sy'n rhan anatod o'r diwydiant.

Ymateb Cyfarwyddwr Cyfathrebu'r RASE, Denis Chamberlain, oedd; "Mae'n rhaid i'r holl ddiwydiant ddenu'r niferoedd sydd yn sicrhau fod un o'r diwydianau mwyaf a phwysicaf yn y DU yn medru cunhyrchu mwy o fwyd, rheoli'r amgylchedd, cynhyrchu tanwydd cynladwy a chwarae rhan sylweddol mewn ymdopi a newid hinsawdd."

'Fel Cymro gwladgarol ac aelod o gymuned amaethyddol draddodiadol mae'n frain cael hyrwyddo cig oen byd enwog Cymru' meddai Myrddin, sy'n ffermio 73 hectar (180 erw) gyda'i rieni, Gwynfor a Myra, ger Conwy.

'Gobeithiaf y bydd y cyhoedd yn darganfod fod fy mrawdfrwydded am fagu cig oen uchel-radd yn heintus. Mae hyrwyddo dealltwriaeth gwell o'r cynyrch unigryw a'r swyddogaeth arbennig y mae ffermwyr Cymru yn ei gyflawni er mwyn cynhyrchu bwyd o'r radd uchaf ar gyfer y bwrdd bwyd, tra'n gwarchod yr amgylchedd, yn gyfle cyffrous.'

Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig
IBERS ABERYSTWYTH

Rhestr Cysiau

BSc Anrhydedd

Amaethyddiaeth
Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid
Amaethyddiaeth gyd Rheolaeth Cefn Gwlad
Amaethyddiaeth a Marchnata
Amaethyddiaeth ac Astudiaethau Busnes

Gradd Sylfaenol

Amaethyddiaeth

DGU

Amaethyddiaeth
Amaethyddiaeth gyda Busnes
Amaethyddiaeth a Chadwraeth Cefn Gwlad

Cyswilt

Iwan Owen
Penri James

(01970) 624471
igo@aber.ac.uk
wpj@aber.ac.uk



Myrddin Davies

Sam yn derbyn cydnabyddiaeth y RABDF

Dyfarnwyd Sam Pearson, myfyriwr ail flwyddyn Amaethyddiaeth a Rheolaeth cefn Gwlad a gwobr wrth gefn Cymdeithas Brenhinol Ffermwyr Llaeth Prydain (RABDF) / Dairy Crest am fyfyrwr y flwyddyn 2009 yn Llundain yn ystod mis Mehefin.

Sam oedd un o 17 myfyriwr a enwebwyd gan Brifysgol neu Choleg ar sail eu gallu a'i diddordeb mewn gwartheg godro ac a fynychodd cyfweiliad yng Ngholeg Reaseheath Swydd Caer yn gynharach eleni. Yr oedd yr ymgeiswyr yn cael eu 'cyfweld' gan banel am swydd ddychmygol fel rheolwr buches yn Reaseheath – hyn wedi iddynt gael gwybodaeth cynnyrch ac

ariannol y fuches a chyfle i gerdded y fferm cyn amlinellu eu cynlluniau rheolaeth i'r fuches os byddent yn cael y swydd.

Bu raid i'r pedwar ymgeisydd olaf rhoi cyflwyniad ar sut all fferm odro ddiwallu anghenion proseswyr cyn cael eu cwestiynu'n galed gan y wasg amaethyddol yn y 'Farmer's Club' a derbyn dyfarniad olaf y panel beirniaid

Er bod Sam y tu ôl i'r enillydd, Luke Thompson o Goleg Plumpton, cafodd Sam hwyf ar yr ornest gan gipio gwobr ariannol o £250 a mwynhau eu hun yn fawr. "Er ei fod yn brofiad ddychrynlyd sefyll o flaen panel o feirniaid pwysig a'r wasg amaethyddol fe wnes fwynhau'r profiad fydd yn gymorth imi ym mlwyddyn olaf fy astudiaethau y flwyddyn nesaf, mae'n baratoad i'r baich o gyfweiliadau swyddi sydd i ddod"

Fe aeth y darlithydd, Dr Mike Rose, gyda Sam i Lundain a dywedodd, "Am fyfyrwr sydd ond yn ddiweddar wedi cwblhau ei ail flwyddyn ar y cwrs gradd mae Sam yn glod i'r Brifysgol ac fe ddylai fod yn falch o'i lwyddiannau. Caiff y Brifysgol wahoddiad i enwebu ymgeisydd i'r gystadleuaeth pwysig yma yn y diwydiant llaeth ac mae'n gyfle i fyfyrwyr fesur eu hunain yn erbyn myfyrwyr o Golegau a Phrifysgolion eraill mewn awyrgylch 'real' a chwrrd a chynrychiolwyr enwog o'r diwydiant llaeth".

Bywyd yn felys

Cynhyrchir siwgr dramor gan British Sugar Overseas (BSO) yn enwedig yn Ewrop (Gwlad Pwyl), Affrica a Tsiena. Yn Hydref 2007 sefydlwyd menter ar y cyd yng Ngogledd Tsiena i gynhyrchu 500,000 tonnall o siwgr 'cane' yn flynyddol (mae Prydain yn cynhyrchu 1,000,000 tonnall yn flynyddol).

Dewiswyd cyn-fyfyrwr Nick Neumann i ymuno a'r tîm wedi iddo dderbyn sawl cyfweiliad, ymarferiad chwarae rhan yn ogystal a thaith gyflwyno i Tsiena yr Hydref diwethaf.

Daw Nick o gefndir di-amaeth, wedi ei eni yng nghefn gwlad Sir Benfro a magu diddordeb mewn amaethyddiaeth. "Yr wyf wedi gweithio ar ffermydd ers yn ifanc a chefaid radd BSc mewn Amaethyddiaeth yn Aberystwyth yn 2000. Yr wyf yn falch, yn freintiedig ac yn teimlo ei fod yn anrhydedd cael fy newis o nifer o ymgeiswyr ar draws Prydain i gymerid rhan mewn sialens enfawr i addysgu'r Tsieniaid ynglŷn a thechnoleg ac ymarferion amaethyddol y gorllewin. Yr ydym hefyd yn bwriadu codi ansawdd byw a chyfoeth y brodorion lleol yn Ngogledd ddwyrain Tsiena. Bydd yn dra wahanol o ddydd i ddydd o'i gymharu a gwaith fel rheolwr buches yn Sir Benfro".



Manteision amgylcheddol ffermydd mewn ardaloedd llai ffafriol

Dyfarnwyd €226,000 i'r Sefydliad fel rhan o gynllun Ewropeaidd sydd yn dechrau ar y gwaith o fesur y manteision amgylcheddol sydd yn deillio o ffermydd mewn ardaloedd llai ffafriol.

Y ddelwedd draddodiadol sydd gennym o gefn gwlad yw bryniau tonnog, gwrychoedd blodeuog, adar ehedog a defaid a gwartheg yn pori'n dawel. Dros y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, mae'r ddelwedd brydferth hon wedi diflannu i raddau helaeth, gyda'r pwyslais yn gynyddol ar gynhyrchiant a ffermio dwys yn yr iseldir, wedi effeithio ar fioamrywiaeth yr ardaloedd sy'n cael eu ffermio.

Ond bellach, gyda diddordeb cynyddol yn gyffredinol mewn ffyrdd o fyw sy'n gynaliadwy, mae'r prosiect ymchwil

Ewropeaidd 'BioBio Indicators for biodiversity in organic and low-input farming systems', sy'n cael ei arwain gan Dr Peter Dennis o IBERS yn bwriadu edrych ar y gwerth a roddir ar ffermio yn yr hyn sy'n cael ei alw'n ardaloedd llai ffafriol – tiroedd anghysbell yr ucheldir a ffermydd mynydd ar draws Ewrop, gan fesur y buddiannau sy'n deillio ohonyn nhw, nad ydyn nhw ar y cyfan yn cael eu gwerthfawrogi.

Dywed Dr Peter Dennis, arbenigwr mewn bioamrywiaeth a systemau pori: "Mae llawer o werthoedd eraill gan y tiroedd hyn, ac rydyn ni fel grŵp o wyddonwyr yn awgrymu nifer o ffyrdd o fesur y tu hwnt i gynhyrchiant amaethyddol gan edrych ar y weithgareddau buddiol eraill gan ffermwyr yng nghefn gwlad."

Yn y pen draw, bydd y prosiect yn cynnig argymhellion i'r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas ag asesu'r cyfraniad a wneir gan ffermio i amcanion bioamrywiaeth a chadwraeth y Comisiwn, sy'n cynnwys atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Bydd y canlyniadau hefyd yn ychwanegu at yr wybodaeth y mae'r cyhoedd yn ei derbyn am y ffordd mae eu bwyd yn cael ei gynhyrchu, a allai fod yn fantais marchnata i'r ffermwyr dan sylw. Byddan nhw'n gallu dangos eu bod yn darparu cynnyrch bwyd iach, a hefyd un sy'n cael ei dyfu ar dir sy'n gyfoethog mewn natur, a lle mae cyfoeth cefn gwlad yn cael ei gadw.



Dr Peter Dennis